Ymateb Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
ADOLYGIAD Y PARCIAU CENEDLAETHOL

A Swyddogaeth Parciau

Pwrpasau

A1 Pa mor effeithiol yw'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau) wrth gyflawni eu pwrpas statudol?
A ellid cyflawni'r pwrpasau hyn yn fwy effeithiol?

Mae'r ddau brif bwrpas yn dal i fod yn ddilys a dylid eu cadw ynghyd â'r swyddogaethau cynllunio a rheolaeth datblygu cyfredol, ond gweler A2 isod.

Fodd bynnag, cyflawnir y pwrpasau hyn yn fwy effeithiol drwy:

- Integreiddio cyflwyno gwasanaethau gyda chyrff partner yn well; a'r Parciau'n cael swyddogaeth 'siop stop cyntaf' (gweler B12-18 isod).
- Datblygu swyddogaeth a chyfrifoldeb eglurach gyda golwg ar ddatblygiad cynaladwy (gweler A2 isod).
- Darparu adnoddau digonol.
- Arafu'r galw i sianelu mwy o adnoddau Awdurdod y Parc i ddadansoddi ac adrodd ar berfformiad, yn hytrach na rhoi gwasanaeth.

A2. A yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn dal y Parciau yn ôl rhag cyflawni eu pwrpasau neu eu potensial yn llawn?
A fyddai unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol o gymorth ?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Barciau Cenedlaethol fod yn fodelau o reoli cefn gwlad ehangach yn gynaladwy. Er bod dau bwrpas y Parciau ar hyn o bryd (adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995), ynghyd â'r dyletswydd (adran 62) i 'geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol' yn mynd beth o'r ffordd tuag at gydnabod ethig cynaladwyedd, bydd newid yn y ddeddfwriaeth yn rhoi awdurdod mwy eglur i'r Parciau. Gellid gwneud hyn trwy gyflwyno trydydd pwrpas, yn ymgorffori ail nod Parciau Cenedlaethol yr Alban, sef '*hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol yr ardal yn gynaladwy'* a'r pedwerydd nod, sef '*hyrwyddo datblygu cymunedau'r ardal yn gymdeithasol ac yn economaidd mewn modd cynaladwy'*. Byddai'r dyletswydd yn cael ei ddileu o Adran 62 wedyn, ond bydd angen ailddiffinio Egwyddor Standford er mwyn cymryd yr Agenda Datblygu Cynaladwy i ystyriaeth (gweler B18).

Yn ychwanegol at hyn, gallai'r Parciau gyflawni eu potensial yn well os byddai adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol gael mwy na 'golwg ar' bwrpasau'r Parciau Cenedlaethol (gweler B18).

Lles economaidd a chymdeithasol

A3 Yn ogystal â dilyn eu dau bwrpas statudol, mae dyletswydd ar Awdurdodau'r Parc i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu hardaloedd hefyd.
Pa mor dda mae hyn yn cael ei gyflawni?

Gwneir llawer o waith craidd Awdurdod y Parc sy'n gysylltiedig â'r ddau bwrpas statudol mewn dulliau sy'n 'ychwanegu gwerth' mewn ffordd economaidd gymdeithasol. Ymhlith yr enghreifftiau y mae ein rhaglen amaeth-amgylcheddol, cynlluniau gwella trefi a Phartneriaeth Llwybrau'r Ucheldir. Mae'r gwahanu trwsgl braidd a geir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd rhwng pwrpasau a dyletswydd yn celu realiti'r berthynas rhwng ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth gyflawni pwrpasau'r Parc.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaladwy, yr SDF, a chynlluniau grant eraill y Parc yn helpu mewn dulliau rhesymol ac erbyn hyn mae sefydliadau partner yn ceisio Parciau Cenedlaethol i'w helpu i gyflenwi eu gweithgareddau economaidd gymdeithasol OND mae hyn wedi codi cwestiynau mawr ynglŷn â gallu'r Parciau i chwarae rôl gyflawn. Rhaid i'r adolygiad wynebu ar ei ben prun a fydd yn yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Parciau Cenedlaethol o chwarae rôl fwy gweithredol yn y meysydd hyn ai peidio (h.y. trwy allu mynd i gryn gostau).

A4 A ellid gwneud hyn yn fwy effeithiol?

Gweler A5 isod.

A5 A ddylai Awdurdodau'r Parciau gael rôl fwy gweithredol mewn datblygu economaidd?

Mae achos cryf dros hyn yn arbennig os oes disgwyl i Barciau Cenedlaethol fod yn fannau i brofi datblygu cynaladwy yng nghefn gwlad. Nid oes fawr o dystiolaeth y bydd Awdurdodau Unedol yn cyflenwi hyn yn y Parc Cenedlaethol ac nid yw'r ffaith fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu ar hyn o bryd rhwng yr Awdurdod Datblygu, yr Awdurdodau Unedol ac APCau o ddim help – ar ei waethaf y mae'n niweidio datblygu ardaloedd gwledig bywiog a chynaladwy.

Dylid cael gwared o'r cyfyngiad gwariant ar APCau, sydd wedi ei gynnwys yn adran 62(1)(1) o Ddeddf 1995, gan osod swyddogaeth statudol fwy eglur yn ei le, a threfniadau ar gyfer gweithio

gydag asiantaethau eraill i gefnogi'r math yma o waith. Gellid diffinio swyddogaeth economaidd gymdeithasol awdurdodau'r Parc yn fwy priodol trwy fabwysiadu un Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yr Alban sef. *hyrwyddo datblygu cymunedau'r ardal yn gynaladwy yn economaidd a chymdeithasol* (gan gynnwys diwylliannol). Mae'n dilyn y bydd gofyn darparu adnoddau digonol i'r Parciau fedru diwallu'r agenda a'r flaenoriaeth gynyddol sy'n gysylltiedig gyda'r maes gwaith hwn.

Hyrwyddo Datblygu Cynaldawy (DC)

A6 Beth ddylai swyddogaeth y Parciau fod wrth fynd ar drywydd datblygu cynladawy?

Mae Cylchlythyr 13/99 y Swyddfa Gymreig 'Deddf yr Amgylchedd 1995, Rhan 111, Parciau Cenedlaethol yng Nghymru' yn datgan ym mharagraff 20 fod y Parciau Cenedlaethol mewn sefyllfa gref i ddylanwadu ar sut rydym yn gofalu am ein cefn gwlad, i fod yn fodelau ar gyfer rheoli cefn gwlad ehangach yn gynaladwy, ac i helpu i hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad cyffredinol o'r dulliau y gellir cydbwyso datblygiadau a chadwraeth yn well. Dylai'r Parciau Cenedlaethol gadw egwyddorion datblygu cynaladwy mewn cof hefyd wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

Mae'n dilyn y dylai'r Parciau fod yn dilyn model o ddatblygiadau cymdeithasol ac economaidd priodol sy'n parchu cyfyngiadau amgylcheddol a phwrpasau PC. Dylai Parciau gael eu hadnabod fel lleoedd sy'n rhoi arferion da ar waith nid yn adnabod beth yw arfer annerbyniol o wael yn unig. Dylent fod yn lleoedd ble rydym yn ffafrio'r dyfodol ond yn dysgu o'r gorffennol.

Yn ei araith i Europarcs 2002 dangosodd Adrian Phillips enghreifftiau o sut y gall Parciau fod yn gynaladwy. Gweler atodiad 1.

A7 – 8 Sut gellir cynyddu cyfraniad posib y Parciau i ddatblygiad cynaladwy, a beth fyddai'n gwneud y swyddogaeth hon yn fwy effeithiol?

Mae hyn yn anodd pan fo gwahanol asiantaethau'n gyfrifol am gyflenwi gwahanol agweddau a ble does dim fforwm (mae sgôp Cynllun Rheoli'r PC yn gyfyngedig ar hyn o bryd) ble gellid dod i gytundeb am sut y gallai bob un weithio gyda'i gilydd i nodi a cheisio DC. Yr unig ffordd y gall Parciau Cenedlaethol fynd ar drywydd DC yn fwy effeithiol yw os gallant berswadio asiantaethau cymdeithasol ac economaidd i gymryd mwy o sylw o bryderon amgylcheddol a phwrpasau PC, neu os gallant ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.

Nid yw'n eglur beth a ddisgwylir gan APC o ran cyflenwi agenda Cynladawyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC). Mae angen egluro swyddogaeth economaidd-gymdeithasol APCau, ynghyd â ddiffinio egwyddor Sandford, ac ymroddiad mwy pendant gan awdurdodau perthnasol i bwrpasau statudol y Parciau er mwyn eu galluogi i gynyddu eu cyfraniad tuag at Ddatblygu Cynaladwy i'r eithaf.

A9 – 10 I ba raddau y mae Parciau Cenedlaethol yn cyflenwi eu swyddogaeth DC, a sut gellid ei gwella?

I raddau yn unig y mae'r Parciau yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Bydd yn anodd gwneud cynnydd oni bai yr eir i'r afael â rhai o'r materion a nodir uchod. Er hynny mae'r SDF a chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhoi rhai enghreifftiau o arfer da y gellir eu trosglwyddo ymhellach.

Câi swyddogaeth DC y Parciau ei chadarnhau a'i hesbonio'n glir pe bai pwrpasau statudol y Parciau'n cynnwys ail nod Parciau Cenedlaethol yr Alban, i hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol yr ardal yn gynaladwy.

Byddai hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach pe bai Parciau'n cymryd rôl 'siopau stop cyntaf' yn rhoi cyngor a chymorth grant mewn meysydd perthnasol i bwrpasau'r PC ee rheoli tir ac adnoddau, hamdden cynaladwy a thwristiaeth.

<u>Cynnwys Cymdeithasol a chysylltiadau gyda chymunedau trefol</u>

A11 Beth ellir ei wneud i sicrhau fod cymaint ag sy'n bosib o boblogaeth Cymru yn dod yn ymwybodol o nodweddion arbennig y Parciau, ac yn gallu eu mwynhau a'u gwerthfawrogi?

Gellir defnyddio swyddogaeth hyrwyddo'r Parciau i bwysleisio harddwch eu tirwedd ond yr hyn sydd angen ei bwysleisio'n arbennig yw pa mor berthnasol yw'r Parciau i bobl. Ni waeth faint o hyrwyddo a geir, ni fydd yn apelio at bobl nad oes arnynt unrhyw awydd, ac nad ydynt yn teimlo unrhyw angen, i fentro allan o'u cymdogaeth. Ond mae Parciau yn gallu darparu manteision uniongyrchol i'r gymuned ehangach o safbwynt iechyd, diwylliant ac addysg, ac fel lleoedd i ymweld â hwy dylent gael eu cysylltu gyda hybu iechyd ac ymgyrchoedd cymdeithasol eraill.

Mae'r mwyafrif llethol o'r rhai sy'n ymweld â Pharciau Cenedlaethol yn teithio mewn car. Mae'r diffyg trafnidiaeth ddibynadwy rhwng cytrefi a'r Parciau, ac oddi fewn y Parciau, yn ffactor anferth sy'n dal grwpiau ar incwm isel a phobl heb gar at eu defnydd yn ôl. Rhaid wrth drafnidiaeth gyhoeddus, well, ddibynadwy a hawdd ei defnyddio.

A12 Sut gallai'r Parciau gael rôl fwy pendant yn y dasg o gyflenwi amcanion cynnwys cymdeithasol y Cynulliad?

Mae angen i'r broses Strategaeth Gymunedol fod yn fwy perthnasol i'r Parciau. Rhaid i'r Parciau gydweithio'n well gyda grwpiau dan anfantais. Mae angen i'r Parciau archwilio eu Cynlluniau a'u Strategaethau i ofalu eu bod yn gwbl gynhwysol Parc.

Mae angen i'r Parciau archwilio eu gwasanaethau, eu hadnoddau a'u gwybodaeth/cysylltiadau i wneud yn siŵr eu bod yn berthnasol ac yn croesawu pob sector o'r gymuned. Bydd annog a hybu mwy o wirfoddolwyr i gymryd rhan er mwyn cefnogi pwrpasau'r Parc yn helpu i hyrwyddo'r agenda cynhwysiad cymdeithasol. Bydd angen i'r Parciau sicrhau hefyd fod modd i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus leol i ymweld ar yr adegau a ddewsiant hwy.

A13 Sut gallai'r Parciau gydweithio'n agos ac yn well gyda grwpiau dan anfantais (gan gynnwys grwpiau anabl a lleiafrifoedd ethnig) oddi fewn ac oddi allan i ffiniau'r Parc?

Nid oes digon o gydweithio agos gyda grwpiau dan anfantais yn digwydd yn Eryri. Defnyddir gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau addysg a wardeiniaid y Parc i gryfhau cysylltiadau uniongyrchol gyda chyrff cynrychioliadol, gan geisio cyngor ganddynt am wella cyfleoedd i fwynhau'r Parc. Rydym wedi gwneud mwy o gynnydd ar gydweithio'n agos gyda grwpiau anabl ond mae gofyn datblygu hyn ymhellach fel ei fod yn elfen awtomatig yng ngwaith yr Awdurdod. Mae defnyddio grwpiau anabl lleol i gynghori ynglŷn â chynlluniau a datblygiadau, annog darparu trafnidiaeth ar gyfer yr anabl, datblygu defnyddio Braille a dehongli llafar ynghyd â defnyddio gwefannau'n effeithiol i gyd yn cynnig cyfleoedd.

A14 Pa mor effeithiol y mae'r Awdurdodau Parciau yn ymestyn allan i gymunedau trefol sy'n union tu hwnt i'w terfynau ac ymhellach draw (er cefnogi cynnwys cymdeithasol, addysg ac amcanion perthnasol) fel y gall cymaint ag sy'n bosib o bobl fwynhau manteision y Parciau?

Fe allem, ac fe ddylem fod yn fwy effeithiol o safbwynt cymunedau sydd ymhellach i ffwrdd. Mae'r cysylltiadau sydd gennym wedi'u gwneud drwy gyrff sy'n cynrychioli y rhai hynny allai fod am ymweld, a thrwy'r llu o ganolfannau awyr agored sy'n rhoi gwasanaeth i bobl ifanc ac oedolion sy'n ymweld ag Eryri. Mae llawer o waith i'w wneud yn nes adref i ymestyn allan i ysgolion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol eto i ddangos fod y Parc yn berthnasol i fywydau a gobeithion pobl.

A15 Sut gellid cryfhau'r math yma o gysylltiadau?

Trwy ddatblygu gwasanaethau gweithgareddau magu blas integredig ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuenctid.
Trwy annog a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio Canolfannau Astudiaethau y PC.
Trwy gyflwyno arddangosfeydd ac arddangosfeydd fideo mewn llyfrgelloedd, ysgolion, canolfannau cymunedol ayb. mewn ardaloedd trefol.
Trwy noddi pobl ifanc i ddod i weithio yn y parciau fel prentisiaid ar sesiynau magu blas.
Trwy annog a chefnogi ysgolion lleol a phobl ifanc i ddefnyddio canolfannau gweithgareddau, ac i ddatblygu eu sgiliau er cael mynediad at gyfleoedd gwaith yn lleol fel hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored.
Trwy ddatblygu cysylltiadau gyda'r ystod eang o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol, hamdden ac amgylcheddol lleol.
Trwy ddatblygu rhagor ar wefannau perthnasol. y Parciau.

<u>Swyddogaeth Gyffredinol</u>

A16 Sut gellid cryfhau swyddogaeth a dylanwad y Parc i bwrpas defnyddiol?

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro'n glir a chefnogi pwrpas Parciau Cenedlaethol a'u swyddogaeth a'r manteision sydd iddynt yn y gymdeithas sydd ohoni. Ac yn arbennig dylid ymgorffori swyddogaeth flaengar y Parciau Cenedlaethol fel hyrwyddwyr/ patrwm o arferion cynaladwy nid yn unig yn y ddeddfwriaeth berthnasol ond hefyd mewn polisïau strategol yn ymwneud ag ardaloedd gwledig Cymru a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddynt.

- Dylid cydnabod y swyddogaeth hon yn holl feddwl strategol/dogfennau LlCC, yn arbennig mewn cyd-destun cynllunio cenedlaethol yng Nghynllun Gofodol y Cynulliad sy'n cael ei ddatblygu.

- Mae angen mwy o eglurder yn sgil polisi'r Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaladwy ynghyd â'r swyddogaeth ddylai fod i Barciau Cenedlaethol wrth gyflenwi'r agenda hwn.

- Mae angen egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau a chydlynu gweithgareddau sector cyhoeddus yn well o fewn y Parc ar lefel strategol, gymunedol ac ymarferol. Mae angen cydnabod cysyniad ac amcanion Parciau Cenedlaethol yn fwy uniongyrchol yng ngweithgareddau'r sector cyhoeddus/asiantaethau a'u gwneud yn fwy atebol am eu gweithredoedd yn y Parc Cenedlaethol.

- Mae angen trefniadau ariannu cadarn sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu anghenion rheoli'r Parc a mwy o sicrwydd fod pob ffynhonnell nawdd sydd ar gael i gyrff cyhoeddus eraill i

hyrwyddo Parciau Cenedlaethol yn cynnwys mecanwaith diogelu i sicrhau fod gweithgareddau sy'n cael cymorth grant yn hyrwyddo pwrpasau'r Parc.

- Dylai Parciau ddal i gael eu cydnabod fel meysydd arloesol ar gyfer stewardiaeth amgylcheddol a dylai sefydliadau eraill roi cefnogaeth iddynt ddilyn y swyddogaeth hon.

- Dylid cyfyngu ar yr obsesiwn cyfredol ynglŷn â datblygu strategaethau. Mae'r gorlwytho yma'n arwain at ddryswch, dyblygu ymdrechion a rhannu materion yn adrannau yn ôl trefn y sector cyhoeddus yn hytrach nag annog ystyried meddwl yn strategol am reoli, integreiddio a chydlynu.

- Lleihau ystod a chymhlethdod cymorth grant drwy gyfyngu'r amrywiaeth cyfleoedd nawdd. Datblygu swyddogaeth a gallu asiantaethau un pwrpas e.e. Awdurdodau Parciau i weithredu fel 'siop stop cyntaf' yn cynghori ar ddatblygu cefn gwlad a materion cynaladwyedd. Mae hyn yn cynnwys twristiaeth lle dylai Awdurdodau Parciau gael rôl fwy uniongyrchol mewn llywio datblygu twristiaeth mewn dull mwy cynaladwy.

- Dylai fod **yn ofynnol** fod gan gyrff y Llywodraeth ddyletswydd gofal yn hytrach na dim ond "cadw pwrpasau'r Parc mewn cof" wrth ymgymryd â'u gweithgareddau yn y Parciau.

- Dylai pob corff ac asiantaeth gyhoeddus gyflawni eu gwaith mewn modd sy'n gosod esiampl mewn Parciau Cenedlaethol a dylai fod yn ofynnol iddynt ddangos sut mae'r hyn maent wedi ei wneud wedi gwella pwrpasau'r Parc. Dylai APCau fonitro cydymffurfio gyda a62 y Ddeddf fel rhan o'u trefniadau gwerthuso/adrodd, a dylai cyrff ac asiantaethau eraill allu darparu gwybodaeth i ddangos sut mae eu gweithgareddau wedi hyrwyddo pwrpasau'r Parc.

- Mae angen i werth asedau'r Parc ddod yn fwy uniongyrchol berthnasol i fywydau bob dydd cymunedau a grwpiau diddordeb lleol, a rhaid iddynt gael eu gweld yn cyfrannu at ansawdd eu bywyd. Mae llawer o bobl sy'n dal i gysylltu gyda swyddogaeth a gweithgareddau Awdurdodau Lleol yn unig ac nid y Parciau. Dylai Strategaethau Cymunedol sy'n effeithio ar ardal y Parc gymryd cyfrif llawn o egwyddorion y Parc.

- Dylid datblygu delwedd brand Parciau Cenedlaethol a'i defnyddio fel nod masnach ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sydd wedi eu hachredu'n amgylcheddol.

- Dylid hyrwyddo nodweddion a manteision arbennig amgylchedd y Parc i greu gwell dealltwriaeth o werth Parciau.

- Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i gyfreithlondeb ardal y Parc fel uned ddaearyddol yn achos casglu a dadansoddi data, ac felly osgoi problem "guesstimates" ystadegol.

A17 Sut y gall y Parciau chwarae rhan flaenllaw ym mywydau pobl Cymru ar lefel y DU ac yn rhyngwladol?

- Mae lle i amau a ddylai Parciau chwarae "rhan *flaenllaw*…". Efallai ei bod yn fwy addas gweithio tuag at i Barciau ddod yn "fwy perthnasol, a chael eu gwerthfawrogi a'u trysori gan bobl Cymru a chymdeithas yn gyffredinol", gan ddatblygu gwerthfawrogiad felly o'r cyfleoedd y mae adnoddau'r Parc yn eu cynnig i bawb o ran swyddogaethau a ffordd o fyw.

- Dylid egluro'n well a rhoi mwy o gydnabyddiaeth i werth economaidd presennol a phosib amgylchedd y Parciau i'r cymunedau sy'n byw ynddo neu'n defnyddio'r lleoedd hyn.

- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi'r arfer da sy'n cael ei hyrwyddo mewn Parciau Cenedlaethol o safbwynt datblygu gwledig. Dylai hyn gael ei wneud ar sail cydlynol, drwy Gymru gyfan a hefyd ac ar lefel ryngwladol, gan gyrff cenedlaethol a'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n gweithredu yn y Parc.

- Dylid darparu gwell cyfleoedd i bobl ifanc a sectorau sydd dan anfantais yn y gymuned i gydweithio'n agos gyda amgylcheddau Parciau Cenedlaethol mewn modd ymarferol a chynhwysol.

- Dylai'r egwyddorion a'r gwerthoedd amgylcheddol sy'n sylfaen i'r Parciau Cenedlaethol gael eu defnyddio fel "baneri" i hyrwyddo ymdeimlad ehangach o stiwardio adnoddau a chadw tŷ gwyrdd ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Nid yw'r rheini sy'n defnyddio/mwynhau Parciau Cenedlaethol bob amser yn deall yn iawn y cysyniad o "stiwardiaeth gefnogol " ar gyfer adnoddau ac asedau.

<u>Tirweddau eraill a warchodir</u>

A18 A fyddai cysylltiadau cryfach gyda thirweddau eraill a warchodir yng Nghymru o fudd?

Byddai. Mae'r Parciau Cenedlaethol a thirweddau eraill a warchodir yn rhannu'r un diddordebau, yr un cyfleoedd a'r un sialensau. O'u rhoi gyda'i gilydd maent yn ffurfio dros chwarter arwynebedd tir Cymru, aset enfawr i'r wlad. Mae'n amlwg fod mwy o gyfnewid profiad rheoli ac arfer da yn fuddiol.

Mae gan Eryri gynrychiolaeth gref iawn ar Safleoedd Natura 2000 ar y môr a'r tir o fewn y Parc ac ar ei ffiniau. Mae'r cydgysylltu gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac asiantaethau eraill ynglŷn â rheoli a gwarchod y safleoedd hyn yn ddigonol, ond gellid ei gryfhau trwy gyfrwng partneriaethau mwy agos ynghyd â swyddogaethau ac iddynt atebolrwydd

A19 Pa gysylltiadau ymarferol ellid eu ffurfio gyda thirweddau eraill a warchodir yng Nghymru?

Ni ddylai cysylltiadau gyda thirweddau a warchodir gael eu cyfyngu i Gymru, ond dylent dynnu ar gymunedau a safbwyntiau â diddordeb cenedlaethol a rhyngwladol ehangach, a rhannu profiadau gyda hwy. Dylid cydnabod proffil a manteision tirweddau a warchodir yn strategol mewn cyd-destun cenedlaethol.

Ar hyn o bryd nid yw'r cysyniad o rwydwaith integredig o Dirweddau a Warchodir ar draws Cymru'n bodoli. Y rheswm am y diffyg hwn yw nad yw swyddogaeth Tirweddau a Warchodir wedi ei datblygu mewn dull strwythuredig ac nad yw pobl yn deall nac yn cydnabod yn iawn beth yw'r cysyniad Tirweddau a Warchodir. Mae'r ffaith fod cymaint o ddynodiadau amgylcheddol i'w cael yn peri mwy o ddryswch, ac yn cyfrannu at y diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r tebygiaethau/y berthynas rhwng y gwahanol fathau o Dirweddau a Warchodir. Pe bai gan y Cynulliad y grym, a'r ewyllys, i lwyr integreiddio'r rhwydwaith o Ardaloedd a Warchodir, yna fe allai Cymru fod yn esiampl i ardaloedd eraill yn Ewrop.

Er gwaethaf hyn, mae Tiroedd a Warchodir yn cynrychioli'r esiamplau gorau o dirweddau a chefn gwlad Cymru. Bydd datblygu ymagwedd eglur, strategol a chyfannol tuag at eu swyddogaeth, a sut y maent yn cael eu rheoli a'u hariannu ym mholisi'r Cynulliad ee yn y Cynllun Gofodol yn gwneud eu pwrpas torfol yn fwy eglur ac yn haws ei ddeall.

Trwy ffurfio cysylltiadau cryfach rhwng PC a Thirweddau eraill a Warchodir bydd yn bosib defnyddio'r portffolio safleoedd fel ffon i fesur pa mor iach yw ardaloedd tirwedd pwysicaf Cymru. Un ffordd bwysig o wneud hyn yw trwy sefydlu hunanaieth y berthynas rhwng Parciau Cenedlaethol a Thirweddau eraill a Warchodir.

B Awdurdodau'r Parciau: llywodraethu a rheoli

Llywodraethu a chydweithio'n agos

B1 Pa mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu cyfredol gyda'r Parciau Cenedlaethol ? Sut ellid eu gwella?

Ystyrir bod y trefniadau llywodraethu cyfredol sydd wedi eu seilio ar Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn effeithiol at ei gilydd ac yn caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gyhoeddus agored. Mae'n fantais o ran fod nifer yr aelodau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau yn gymharol fach (ystod rhwng 15 a 24) ac felly'n ddigon hyblyg. Ar y llaw arall mae rhannu'n bwyllgorau llai yn atal datganoli materion pwysig weithiau am y rheswm syml fod llai o aelodau ac o amrywiaeth.

Pe bai Awdurdodau'r Parciau yn ystyried mabwysiadu trefniadau o'r math gweithredol yna mae'n bosib na fyddai manteision mawr yn ymarferol. Mae'r anfanteision yn cynnwys ynysu cyfran o'r aelodaeth gyffredinol a allai olygu eu bod yn llai brwd ynglŷn â bod yn aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae ffactor ychwanegol sef fod traean yr aelodau ar hyn o bryd yn cael eu hethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail diddordeb arbennig neu arbenigedd mewn meysydd gwaith penodol. Byddai system weithredol effeithiol a phwerau sylweddol wedi eu dirprwyo yn tanseilio gallu pob aelod o'r fath i gyfrannu oni bai eu bod yn cael eu penodi'n awtomatig.

Er nad ydynt yn ffafrio mabwysiadu dull Cabinet/Gweithredol, mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn derbyn fod angen adolygu strwythurau gwneud penderfyniadau er mwyn gofalu eu bod yn cael eu rheoli er sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd i gyflenwi'r pwrpasau craidd a'r blaenoriaethau newydd sy'n dod i'r amlwg. O fewn y strwythurau cyfredol, derbynnir bod angen i Aelodau ganolbwyntio mwy ar faterion Strategol a Pholisi a byddai hyn yn golygu adolygu strwythurau cyfredol. Byddai angen adlewyrchu'r rhan a gymerir gan fudd-ddeiliaid, a'u cyfraniadau tuag at faterion Polisi a Strategaeth, mewn ail-werthusiad cyffredinol o'r ffordd y mae'r Parciau yn rheoli eu hunain a sut maen nhw'n gosod nodau a blaenoriaethau.

B2 A yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer penodi ac enwebu aelodau o Awdurdod y Parc yn ddigonol o ran cael effaith ar eu hagenda leol a Chenedlaethol?

Prif ddyletswydd cyffredinol holl Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw cyflenwi pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. O fewn y fframwaith hwnnw mae'n amlwg fod rhannu cyfran addas o aelodau rhwng buddiannau cenedlaethol a lleol yn ffordd o sicrhau persbectif cytbwys wrth wneud benderfyniadau. Mae mwyafrif yr aelodau sy'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn byw yn y Parc, neu'r ardal ar y ffin iddo, ac yn hynny o beth yn cyfrannu'r ddealltwriaeth o faterion lleol sydd ganddynt wrth wneud

penderfyniadau. Fel arfer, fodd bynnag, bydd aelodau yn eu hystyried eu hunain fel aelodau o Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd ar ei ben ei hun gyda chyfrifoldebau penodol tuag at ei Bwrpasau.

B3 Beth fyddai goblygiadau (gan gynnwys y rhai trefniadol ac ariannol) o gyflwyno categori newydd o aelodau wedi eu hethol yn uniongyrchol i Awdurdodau Parciau yng Nghymru?

Ar yr ochr gadarnhaol byddai'n ffordd o sicrhau fod pob rhan o'r Parc yn cael eu cynrychioli ar Awdurdod y Parc. Gyda'r cynllun cyfredol mae cynghorwyr lleol o ardal neilltuol yn gallu bod yn Aelodau o'r Parc tra gallai Aelodau sy'n cynrychioli wardiau eraill fod heb gael eu penodi. Er hynny mae'r trefniadau presennol ar gyfer gwneud penodiadau sy'n cynnwys enwebu aelodau sydd wedi eu hethol yn lleol yn sicrhau fod safbwynt y gymuned leol yn cael ei chynrychioli ar Awdurdod y Parc. O dderbyn statws Awdurdod Lleol pwrpas unigol yr Awdurdodau hyn gallai aelodau a etholid yn uniongyrchol, yn cael eu harwain gan faniffesto neu flaenoriaethau lleol, ei chael yn anodd cynnal pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn gyson. Byddai cyflwyno aelodau etholedig yn golygu etholiad arall drud y byddai angen cryn adnoddau i'w weinyddu. Er y byddai hyn yn cael ei weld fel cam i wneud Awdurdodau Parciau yn fwy atebol i'w cymunedau fe allai greu canfyddiad sy'n tanseilio cyfreithlondeb democrataidd yr aelodau penodedig . Gallai fod yn ffactor ychwanegol a fyddai'n cymhlethu o safbwynt cyfansoddiad aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ystyrir felly fod y drefn bresennol yn rhoi ateb cytbwys ac effeithiol i'r mater ac nid yw'r ddadl dros gael cynrychiolwyr wedi eu hethol yn uniongyrchol wedi argyhoeddi.

B4 I ba raddau y gallai hyn wella democratiaeth leol ac atebolrwydd Awdurdodau'r Parciau i'w cymunedau lleol? A fyddai hyn yn cael cefnogaeth yn lleol? Pa ddulliau eraill allai gael eu hystyried?

Mae'r strwythur presennol yn cynnwys elfen amlwg o ddemocratiaeth ac atebolrwydd lleol o ran fod yr aelodau a benodir gan yr Awdurdod Lleol at ei gilydd yn aelodau etholedig etholaethau sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol. Byddai etholaethau uniongyrchol yn sicr o wella democratiaeth ac atebolrwydd lleol cyn belled ag y byddai aelodau a etholid yn lleol yn cael eu hethol yn arbennig i wasanaethau ar Awdurdod y Parc ac yn atebol felly i'w hetholwyr am eu gweithgareddau hwy eu hunain a'r Parc.

Gallai patrymau gweithredu eraill gynnwys:

1. Peidio â chymhwyso'r rheolau rhannu gwleidyddol cyfredol yn achos penodi i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a seilio penodiadau ar y dadansoddiad gwleidyddol o'r wardiau a nodwyd sy'n cynnwys ardal y Parc.

2. Ei gwneud yn orfodol fod aelodau'n cael eu henwebu o wardiau sy'n cynnwys ardal y Parc a mynnu at hynny fod yr aelodau'n gwirioneddol gynrychioli ardal ddaearyddol eang.

B5 A fyddai cydnabyddiaeth benodol i aelodau a benodir gan y Cynulliad o gymorth i ddenu dewis ehangach o ymgeiswyr pan fo lleoedd gwag yn codi ar Awdurdodau Parciau.

Mae'r athroniaeth gyfredol ar gyfer Lwfansau Aelodau wedi ei seilio ar amcan o'r oriau bydd yr aelod cyffredin yn eu rhoi i'w waith ef neu hi fel Aelod. Mae'r patrwm gweithredu hwn yn golygu fod Lwfansau Aelodau o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi eu seilio ar y gofynion a roddir arnynt gan yr Awdurdod pa gorff bynnag sydd wedi eu penodi. Gan dderbyn fod yna broblem recriwtio Aelodau i gynrychioli Llywodraeth y Cynulliad yna ni ddylid troi trwyn ar lwfansau uwch fel abwyd. Er hynny rhaid cydnabod y gallai fod yn anodd recriwtio Aelodau ar gyfer Awdurdodau gan fod ymrwymiadau gwaith a theulu yn ei gwneud yn wirioneddol anodd neu amhosibl i aelodau'r cyhoedd ymrwymo'r amser sy'n ofynnol gan yr Awdurdod. Nid ystyrir bod angen cyflwyno dosbarth gwahanol o lwfansau.

<u>Cyfathrebu</u>

B6 Pa fecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd i gymunedau lleol, gan gynnwys y rhai hynny sydd ar ymylon y Parc, gysylltu a chydweithio'n agos ar benderfyniadau, gwleidyddiaeth a gweithgareddau eu Hawdurdod Parc lleol? Pa mor effeithiol ydyn nhw?

Mae cylchlythyrau newyddion, post am ddim, ymgynghori drwy'r post, cymorthfeydd yn y gymuned, grwpiau ffocws, wardeiniaid a wardeiniaid gwirfoddol, gwirfoddolwyr, lleoliadau ysgolion, cynlluniau grant a phrojectau cymunedol i gyd yn ddulliau y mae cymunedau lleol a'r Parc yn gwneud defnydd ohonynt wrth gydweithio ar hyn o bryd. Mae gwefan y Parc yn gyfrwng cynyddol bwysig ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd. Bydd yr Awdurdod yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn gyda chynrychiolwyr pob Cyngor Cymuned.

Mae'r rhain yn effeithiol cyn belled ag yr ânt ond ystyrir er hynny fod Awdurdod y Parc yn dal i fod yn rhywbeth sydd ar ymylon bywydau cymunedau (ac eithrio yn rheolaeth datblygu). Mae angen sefydlu mentrau newydd i wneud yr Awdurdod yn berthnasol ac yn bwysig.

B7 Pa gamau eraill allai'r Parciau eu cymryd i gyfathrebu a chydweithio'n fwy effeithiol, i ddatblygu cysylltiadau cryfach â hwy, ac i gynyddu gallu o fewn cymunedau lleol?

Drwy bwysleisio cyflawni amcanion PC drwy roi grym a gweithredu yn lleol. Drwy gynnwys yn hytrach nag ymgynghori, daw Parciau'n fwy o gorff sy'n galluogi i weithgareddau lleol ddefnyddio staff ac adnoddau i gefnogi gweithredu lleol sy'n cefnogi pwrpasau'r Parc. Mae Cynlluniau Tref, mentrau

Ardaloedd Cadwraeth, projectau cymunedol a digwyddiadau diwylliannol lleol yn enghreifftiau ble gwelwyd cymunedau a'r Parc wedi gweithio gyda'i gilydd, gan adeiladau cysylltiadau cryfach.

Rheoli

B8 A yw'r strwythurau rheoli cyfredol o fewn Awdurdodau'r Parciau'n addas ar gyfer y pwrpas o ran darparu cyfeiriad strategol eglur wrth gyflwyno eu swyddogaethau allweddol ac wrth rannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth a gytunwyd a gosod targedau clir ar gyfer cyflenwi?

Mae Adolygu/Rheoli Perfformiad yn faes sy'n datblygu o fewn AauPC. Mae'r strwythur rheoli cyfredol yn annog cydgysylltu rhwng aelodau a staff yr Awdurdod i bennu meysydd blaenoriaeth a thargedau; er hynny mae angen diweddaru strwythurau rheoli a phwyllgorau i fod yn fwy dynamig a hyblyg. Gall y Dadansoddiad diweddar o'r Awdurdod Cyfan ddarparu llwybr ar gyfer newid.

Mae angen ailddiffinio statws a phwrpas Cynllun Rheoli'r Parc i adlewyrchu ei swyddogaeth allweddol yn amlinellu'r polisi ar gyfer rheoli ardal y Parc a chydlynu swyddogaethau cyrff eraill mewn cysylltiad â'r Parc. Bydd Adroddiadau ar gyflwr y Parciau, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, yn mesur effeithiolrwydd y strategaethau rheoli dros amser.

Mae Rheoli/Adolygu Perfformiad yn faes sy'n datblygu o fewn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ond mae angen adnewyddu strwythurau rheoli a phwyllgorau traddodiadol i'w gwneud yn fwy dynamig a hyblyg.

B9 A oes yna newidiadau y byddai'n ddefnyddiol eu hystyried ar sail trefniadau mewn lleoedd eraill gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol arfaethedig newydd yn yr Alban?

Dylid archwilio profiad yr Alban, ac yn arbennig briodoldeb mabwysiadu ail a phedwerydd nod Parciau'r Alban ar gyfer cyflenwi'r agenda cynaladawy ym Mharciau Cymru.

B10 Beth ellid ei ddysgu drwy edrych ar Ewrop ac ar ganllawiau rhyngwladol ar reoli tirweddau a warchodir ?

Mae enghreifftiau o Barciau categori 5 IUCN yn Ewrop sy'n gallu cynnig arfer rheoli da. Er enghraifft wrth hyrwyddo delwedd y Parciau, marchnata eu cynnyrch a'u priodweddau, cydweithio'n agos gyda chymunedau, a systemau rheoleiddio. Mae Eryri'n aelod o Europarc ac mae wedi cynnal cynhadledd ryngwladol Europarc yn 2002. Rydym wedi gefeillio gyda Pharc Cenedlaethol Triglav yn Slovenia ac yn manteisio o gyfnewid staff bob blwyddyn .

B11 I ba raddau y mae Awdurdodau'r Parciau yn llwyddo i osod datblygu cynaladwy ym mhrif ffrwd eu holl swyddogaethau, gan gynnwys cynllunio?

Proses sy'n dechrau yw hon, ond yn dameidiog. Ar hyn o bryd, mae cyfyngiadau o'r tu allan yn gallu cyfyngu ar rai mentrau, fel prynu yn lleol, ac yn aml bydd gweithio o fewn cyfyngiadau Llywodraeth Leol yn rhwystro newid radical. Er hynny, mae Awdurdodau'r Parciau wedi cefnogi egwyddorion cynaladwyedd yn gryf ac yn amlach bob gafael mae hyn yn sylfaen i gynlluniau a dogfennau strategol.

Gweithio mewn Partnersiaeth

B12 A ellid gwneud gwelliannau, er lles cymunedau lleol, i'r ffordd y mae'r Parciau'n cysylltu ac yn gweithio gyda'u haelod Awdurdodau Unedol?

Fel arfer nid yw'r Awdurdodau Unedol yn ystyried y Parciau'n awdurdod perthnasol. Ac yn aml nid ydynt yn deall swyddogaeth y Parciau, yn arbennig mewn cysylltiad â lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Dylai Parciau Cenedlaethol fod yn ganolog i Strategaethau Cymunedol yr Awdurdod Unedol, nid yn ymylol. Dylai Paneli Trosedd ac Anhrefn gymryd Parciau Cenedlaethol i ystyriaeth .

Er bod cydweithredu da mewn rhai ardaloedd, mae sgôp i gydweithio'n glòs ac yn fwy ehangach er budd cymunedau lleol. Mae rhaglenni cyswllt cymunedol a chynnwys cymdeithasol ar y cyd, ynghyd â gwasanaethau addysg a gwasanaethau wardeiniaid yn enghreifftiau. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i wneud APC yn gyfrifol trwy gytundeb am bob hawl tramwy gan gynnwys rhai newydd/cau/cynnal a chadw o fewn eu hardal (a'r A. Unedol i gadw'r mapiau swyddogol). Byddai hyn yn amodol ar drosglwyddo adnoddau ariannol.

B13 Pa mor dda mae Awdurdodau'r Parciau yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd ac asiantaethau amgylcheddol eraill yng Nghymru i sicrhau fod cyn lleied â phosib o ailadrodd a bod darparu gwasanaeth wedi ei integreiddio'n iawn? Pa welliannau ellid eu gwneud?

Mae Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, yn gweithio i hyrwyddo gwell cysylltiadau gydag asiantaethau eraill drwy gyfarfodydd rheolaidd. Er bod Awdurdodau'r Parciau'n cydweithio gyda'i gilydd fwyfwy ar lefel gorfforaethol ac ar lefel uwch, mae'r gwahanol amgylchiadau, amgylchedd, strwythurau a blaenoriaethau lleol yn gallu ei gwneud yn anodd mewn rhai ardaloedd. Mae Cytundeb y Gwasanaeth Wardeiniaid yn cryfhau'r tebygrwydd mewn safonau rhwng Awdurdodau'r Parciau ac mae cydweithio agos Cysylltwyr a safonau cyffredin mewn Canolfannau Ymwelwyr yn feysydd sy'n cael eu datblygu. Gallai

datblygu'r gwaith o ddarparu a mesur ansawdd gwasanaeth ymhellach gynnig elfen ychwanegol mewn integreiddio safonau.

Mae angen diffinio cyfrifoldebau asiantaethau amgylcheddol eraill sy'n gweithio yn y Parciau Cenedlaethol, a'u dyletswydd i hyrwyddo pwrpasau'r PC, yn well. Mae cydweithio da gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru mewn rhai meysydd. Yn Eryri, mae Partneriaeth Llwybrau'r Ucheldir yn esiampl werth ei dangos fel y mae gwaith Tir Gofal a chefnogaeth i amaethyddiaeth. Er hynny, nid yw swyddogaeth y Cyngor Cefn Gwlad yn y Parciau Cenedlaethol yn ddigon eglur, ac mae hyn yn arwain at ailadrodd mewn mannau a chamddeall. Byddai integreiddio mwy clòs o fudd i warchod rhywogaethau, diogelu safleoedd Natura 2000, cyflenwi a monitro cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, rheoli ac adnoddau ymwelwyr, dehongli a chynghori perchnogion tir (gweler B14). Gellid gwneud rhagor o waith gyda'r Cyngor Cefn Gwlad a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i resymoli wardeinio. Mae sgôp hefyd i adolygu'r trefniadau o fewn y Parc ar gyfer gweithredu swyddogaethau CADW o ran rheoli safleoedd ac arolygon.

Mae trefniadau cyswllt gyda'r sector gwirfoddol, yn arbennig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, yn golygu y gellir cydlynu a rhannu adnoddau'n effeithiol.

B14 O dderbyn mor bwysig yw amaethyddiaeth i'r dirwedd, a oes gan Awdurdodau'r Parciau ddigon o gyswllt â pholisïau datblygu amaethyddiaeth a chefn gwlad, ac i gymunedau ffermio eu hardaloedd? Pa welliannau ellid eu gwneud?

Mae APC yn gysylltiedig i wahanol raddau â chyflenwi cynlluniau amaeth-amgylcheddol lleol a chenedlaethol, a chyswllt amaeth. Ond yn aml collir y pwyslais ar nodweddion arbennig y Parciau , ac mae'r modd y cyflenwir y gwasanaeth yn gallu bod yn gymhleth ac yn ddryslyd i ffermwyr. Byddai Awdurdodau'r Parciau yn gweithredu fel 'siopau stop cyntaf', ac fel hwyluswyr a chynghorwyr ar gyfer amrywiol ffrydiau ariannu o fewn eu hardal, yn symleiddio'r gwasanaeth ac yn helpu i gyflawni amcanion y Parc. Mae dadl yn arbennig dros reoli Tir Gofal, yr arf rheoli tir mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi amcanion y Parc Cenedlaethol, drwy Awdurdod y Parc.

Bydd gan adolygiad canol-tymor y Polisi Amaeth Cyffredin oblygiadau sylfaenol i gymunedau gwledig cynaladwy a strwythurau ffermio. Mae'n bosib y bydd dylanwadu ar adolygiad Polisi Amaeth Cyffredin y tu hwnt i delerau Adolygiad y Parciau Cenedlaethol, ond rhaid iddo gymryd cyfrif o'r effaith ar y Parciau a'u cymunedau. Mae dadl dros roi ystyriaeth arbennig i'r Parciau.

B15 A fyddai gweithio mewn partneriaeth fwy agos gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, y CFf, y Bwrdd Croeso, yr Awdurdod Datblygu ac eraill sy'n arwain yn y maes yn caniatáu i'r Parc gael rôl fwy pendant gryfach mewn datblygu cynaladwy yng nghefn gwlad? Sut gellid cyflawni hyn a beth fyddai'r goblygiadau o ran adnoddau?

Mae partneriaethau cryfach gyda'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ei gynnwys i raddau yn B13 uchod. Byddai angen ewyllys wleidyddol ar bob ochr i lwyddo yn hyn o beth ynghyd â datblygu protocolau cynllunio rheoli ac amserlennu ar y cyd a fyddai'n broses gymhleth ac yn cymryd amser i'w gyflawni.

Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol swyddogaeth allweddol mewn helpu i ddarparu strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Coedlannau Cymru, mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Coedwigaeth. Dylai Parciau Cenedlaethol gael blaenoriaeth amlwg wrth gyflwyno systemau gorchudd parhaol, cael gwared o blanhigfeydd nad ydynt yn gynaladwy neu eu hailstrwythuro ac adfer safleoedd coedlannau hynafol. Mae'r Parc yn rhagweld y bydd yn cydweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i symud ymlaen gyda'r mentrau hyn, ynghyd â datblygu cyfleoedd hamdden addas fel beicio mynydd.

Datblygwyd gweithio gyda'r Bwrdd Croeso yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n dal ar gynnydd. Er nad yw Awdurdod y Parc yn gweld fod ganddo rôl i hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol ar draws yr holl wlad a thramor ar y foment, mae'r ffaith y defnyddir ei ddelwedd a'i nodweddion brand gan y Bwrdd Croeso, Awdurdodau Unedol a Phartneriaethau Twristiaeth yn arf defnyddiol.

Mae angen datblygu twristiaeth mewn dull mwy cynaladwy ac mae'r APC yn awyddus i gydweithio'n fwy clòs gyda phob sefydliad partner i hyrwyddo a datblygu atyniadau a chyfleoedd twristaidd cynaladwy.

B16 O dderbyn mor bwysig yw twristiaeth a hamdden yn yr economi gwledig a oes gan Awdurdodau'r Parc ddigon o gysylltiad gyda datblygu polisïau twristiaeth a hamdden? Pa welliannau ellid eu gwneud?

Mae Eryri'n aelod o Bartneriaethau Twristiaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru a'u grwpiau strategol. Mae'n bwysig fod y Parc mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ddatblygu polisïau yn arbennig mewn meysydd fel twristiaeth ddiwylliannol a hamdden awyr agored; bydd angen rhagor o adnoddau i ddatblygu'r meysydd hyn. Mae'n fwy anodd integreiddio yn Eryri gan ein bod yn gorfod gweithio gyda dwy Bartneriaeth Twristiaeth ar wahân.

B17 A oes gan Awdurdodau'r Parciau ddigon o gysylltiad gydag asiantaethau busnes a datblygu fel yr Awdurdod Datblygu, y Bwrdd Croeso ac ELWa ac aelod awdurdodau i bwrpas datblygu busnesau (gan gynnwys busnesau fferm) a chymunedau cynaladwy? Pa welliannau ellid eu gwneud?

Ystyrir APC i raddau helaeth fel rheoleiddwyr cynllunio sy'n rhwystro, ac nid yw eu swyddogaeth ryngweithiol yn cael ei chydnabod ar y cyfan. Mae angen adeiladu cysylltiadau wedi eu seilio ar well dealltwriaeth o swyddogaeth y Parciau. Rydym eisoes wedi dechrau trafod gyda'r Awdurdod Datblygu.

B18 Yn ôl Adran 62 (1.1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae'n ofynnol i Awdurdodau Parciau *gydweithredu gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hyrwyddo datblygiadau economaidd a chymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol* . Pa mor effeithiol yw'r cydweithrediad hwn? Pa welliannau fyddai'n bosib eu gwneud?

Yn ôl Adran 62 (1.1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae'n ofynnol fod *unrhyw awdurdod perthnasol, wrth ymarfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau cysylltiedig â thir mewn PC, neu a fo'n effeithio arno, yn cadw mewn cof bwrpasau statudol y Parciau ac os ymddengys bod gwrthdaro rhwng y cyfryw bwrpasau, y bydd yn rhoi mwy o bwys ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal sydd yn y Parc Cenedlaethol* . A yw awdurdodau perthnasol yn cymryd digon o sylw o'r gofynion hyn? A ellid gwneud hyn yn fwy effeithiol?

Mae'r cydweithredu'n fwy effeithiol gyda rhai cyrff nag eraill. Mae'r rhain yn esgeuluso cynnwys y Parciau yn eu gwaith yn hyrwyddo datblygiadau economaidd neu gymdeithasol o fewn ardal y Parc. Caiff Parciau eu gweld yn aml fel cymeriadau dibwys iawn heb fawr o arian (ac eithrio Cronfa Ddatblygu Ewrop).

Yr ateb i lawer o'r hyn a nodir uchod yw gwneud y Parc yn fwy perthnasol i bobl a chyrff eraill, ac felly fe'u gwahoddir i gyfranogi yn naturiol – mae'n digwydd yn awtomatig.

Esgus cefnogi Adran 62(2) mae'r awdurdodau perthnasol i raddau helaeth. Mae angen cryfhau'r ddeddfwriaeth fel ei bod yn mynnu fod yr awdurdodau perthnasol yn parchu'r Parc Cenedlaethol , a bod ganddynt ddyletswydd gofal ffurfiol, yn hytrach na'u bod dim ond yn 'cadw'r pwrpasau statudol mewn cof' wrth gynnal eu gweithgareddau yn y Parc. Dylai APC fonitro'r cydymffurfio gydag a62 y Ddeddf fel rhan o'u trefniadau gwerthuso/adrodd, a dylai fod yn ofynnol fod cyrff ac asiantaethau eraill yn darparu gwybodaeth yn dangos sut mae eu gweithgareddau wedi hyrwyddo pwrpasau'r Parc.

Gan gyfeirio ar y datganiad yn Adran 62(2) ar flaenoriaeth mewn achosion lle bo gwrthdaro rhwng pwrpasau statudol y Parciau (egwyddor Sandford), bydd angen datgan hyn eto i gymryd cyfrif o fandad y Cynulliad ar ddatblygu cynaladwy ac unrhyw bwrpas statudol newydd gan y Parc i hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd. Dylid parhau i roi mwy o bwys ar bwrpas cyntaf y Parciau Cenedlaethol (y pwrpas cadwraeth) os oes gwrthdaro gydag unrhyw un o'r lleill.

B19 Beth allwn ni ei ddysgu o adolygiad diweddar DEFRA fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer trefniadau llywodraethu a rheoli Parciau Cymru,

Argymhelliad 21: Yn y byr dymor, dylid annog Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i ddatblygu strwythurau a phrosesau mwy syml ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ofalu ar yr un pryd fod yna fecanweithiau effeithiol ar gyfer cynnwys budd-ddeiliaid a rhai eraill perthnasol sydd â diddordeb.

Adlewyrchir yr argymhelliad hwn o adolygiad DEFRA yng Nghwestiwn B1 yr Holiadur. Ond byddai angen adlewyrchu rhan budd-ddeiliaid yn arbennig wrth gyfrannu tuag at faterion Polisi a Strategaeth mewn ail-werthusiad cyffredinol o'r ffordd y mae'r Parciau yn eu rheoli eu hunain ac yn sefydlu nodau a blaenoriaethau.

Argymhelliad 24: Dylai DEFRA, mewn ymgynghoriad gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr Asiantaeth Cefn Gwlad a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, ddatblygu syniadau ar gyfer penodi cadeiryddion annibynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Byddai penodi Cadeirydd Annibynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn edrych fel pe bai'n mynd yn groes i'r symudiad ymddangosiadol tuag at gynrychiolaeth o'r gymuned. Byddai'n creu swydd arweinydd mewn enw a allai beri i rai deimlo fod Awdurdod yn cael ei arwain gan rywun oedd wedi ei ynysu oddi wrth atebolrwydd lleol. Nid ydym o blaid.

Argymhelliad 25: Dylid gwella atebolrwydd fel a ganlyn:

i) i'r Ysgrifennydd Gwladol: dylai Gweinidogion DEFRA gyfarfod Cadeirydd a Phrif Weithredwr pob Awdurdod Parc Cenedlaethol unigol, dros gyfnod o ddwy flynedd o bosibl.

ii) i gymunedau a busnesau lleol: dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol weithio gyda'i gilydd – a chyda'r Asiantaeth Cefn Gwlad – i gynhyrchu canllawiau arfer da ar ymgynghori effeithiol gyda chymunedau a busnesau lleol e.e. trwy gyfrwng rhagor o gyfarfodydd ymgynghori a fforymau plwyf.

(i) Cydnabyddir bod gan Barciau Cenedlaethol Cymru berthynas waith dda, agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru - y Cynulliad Cenedlaethol. Er hynny byddai ffurfioli'r cyswllt gyda'r Gweinidogion perthnasol yn cryfhau'r berthynas.

(ii). Mae pwyslais cynyddol ar fudd-ddeiliaid yn cymryd rhan ac ymgynghori wrth wneud penderfyniadau. Er bod Parciau Cenedlaethol Cymru eisoes yn datblygu cysylltiadau gyda chymunedau a busnesau lleol, dyma faes gwaith y gellid ei ddatblygu ymhellach.

Argymhelliad 26: Dylai'r Asiantaeth Cefn Gwlad, ynghyd â DEFRA, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, ddatblygu a hyrwyddo i) canllawiau arfer da ar ddethol a phenodi pob aelod; ac ii) swydd –ddisgrifiadau ar gyfer Cadeiryddion ac, yn ddelfrydol, ar gyfer holl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Dyma'r cydbwysedd y mae angen dod o hyd iddo rhwng cynrychiolaeth leol a dewis cynrychiolaeth leol trwy ddiffiniad pa un ai'n uniongyrchol drwy etholiad neu'n anuniongyrchol drwy benodi Cynghorwyr ar un llaw ac enwebiadau dethol ar y llaw arall. Rhaid i aelodau a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd drwy broses ddethol cyn cael eu penodi; mae lle i ddadlau a fyddai hyn yn ymarferol yn nhermau penodi cynrychiolwyr lleol.

Mae rôl cadeirydd APC yn cyfuno bod yn arweinydd yr Awdurdod mewn enw a hefyd swyddogaeth gynrychioli sy'n debyg i rôl Arweinydd y grŵp sydd â mwyafrif mewn Awdurdod Unedol. Yn hynny o beth mae'n gallu bod yn rôl heriol gyda phroffil cenedlaethol. Fe allai darparu swydd-ddisgrifiad yn hytrach na manylion person daflu goleuni ar y rôl ei hunan a disgwyliadau Aelodau.

Argymhelliad 28: Fel arfer dylai aelodau a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael eu penodi am hyd at bedair blynedd, yn hytrach na thair blynedd.

Gallai hyn arwain at gysondeb rhwng aelodau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr hyn y mae angen ei osgoi yw sefyllfaoedd allai greu'r posibilrwydd y byddai nifer fawr o aelodau'n newid mewn 'bloc' ar yr un pryd. Cefnogir argymhelliad ar gyfer newid o'r fath.

Argymhelliad 30: Dan gyfarwyddyd dylai DEFRA a'r Asiantaeth Cefn Gwlad annog Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ofalu fod pob aelod yn mynychu hyfforddiant cyflwyno. Dylai'r Asiantaeth Cefn Gwlad ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu pecyn cyflwyno gyda'i gilydd mewn ymgynghoriad gyda DEFRA a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Mae hyn ar waith yng Nghymru yn barod. Cefnogir gwneud hyfforddiant o'r fath fod yn orfodol.

Argymhelliad 31: Dylid annog Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i dreialu dulliau o asesu perfformiad aelodau.

Byddai hyn yn cyd-fynd gyda mentrau datblygu Aelodau ac yn adlewyrchu mai Aelodau yw'r haen uchaf sy'n gwneud penderfyniadau o fewn yr Awdurdod. Mae dangosyddion iechyd corfforaethol cyffredinol yn ganlyniad y penderfyniadau strategol a wneir gan Aelodau ac efallai y byddai sefydlu cyswllt mwy eglur a chydnabod swyddogaeth Aelodau yn ffordd ymlaen. Mae adroddiadau'r Archwiliwr Dosbarth ac Arolygiadau Cynllun Gwella yn mynd i'r afael â chanlyniadau tangyflawni corfforaethol.

Rydym ni'n gweld asesu perfformiad aelodau unigol yn broblem. Er ein bod yn monitro materion megis amlder presenoldeb, rydym yn gweld y byddai gweithredu a gorfodi canlyniadau yn broblem ar y gorau. Byddai angen ystyried hefyd pwy fyddai'n cynnal yr asesiadau a'r oblygiadau gwleidyddol posib.

Datblygu Cynaladwy mewn Parciau Cenedlaethol . Detholiadau o araith Adrian Phillips i gynhadledd Europarcs 2002

Gwneud Tirweddau a Warchodir yn fodelau o Amaethyddiaeth Gynaladwy, er enghraifft:

- Canolbwyntio ar ddiogelu 'bioamrywiaeth- amaethyddol', hynny yw bridiau prin neu anghyffredin o dda byw neu rywogaethau cnydau, llysiau a ffrwythau sydd mewn perygl o ddiflannu, sy'n aml yn un o nodweddion ffermio traddodiadol mewn ardaloedd Categori V a warchodir,
- Annog ffermio organig ymhlith ffermwyr yn yr ardal a warchodir. Mae enghraifft ardderchog o hyn yn cael ei arloesi mewn nifer o ardaloedd Categori V a warchodir,
- .Cefnogi cynnyrch lleol o Dirweddau a Warchodir (bwyd, diod, crefftau ayb).
  Gellir dysgu llawer gan barciau natur rhanbarthol Ffrainc am werth brandio lleol. Mae ymchwil yn y DU yn awgrymu, pan fo bwyd yn cael ei brynu yn lleol. fod £2.58 o waith yn aros yn yr economi lleol am bob £1 gaiff ei gwario ond mai dim ond £1.14 sy'n gwneud hynny pan brynir y cynnyrch mewn archfarchnadoedd, ac
- Cefnogi ffermwyr yn gyffredinol i deimlo balchder a bodlonrwydd gyda gwaith yn ansawdd eu cynnyrch a'r rhan sydd iddynt yn gwarchod y dirwedd a'r bywyd gwyllt.

Gwneud Tirweddau a Warchodir yn fodelau o Ddefnyddio Adnoddau'n Gynaladwy, er enghraifft:

- .mabwysiadu targed i'r ardal o fod yn garbon niwtral targed yn y pen draw. Mae nifer o oblygiadau i hyn: ar gyfer creu ynni (a sut mae Tirweddau a Warchodir yn delio gydag ynni adnewyddadwy fel ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, biomas, ynni'r haul ayb.), cadwraeth ynni (a ddylai tai mewn ardaloedd fel hyn gael safonau insiwleiddio uwch, er enghraifft?), a lleihau newid yn yr hinsawdd i'r eithaf (e.e. plannu coed),
- Gwneud Tirweddau a Warchodir yn fodelau o reoli gwastraff. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i faterion casglu a gwaredu gwastraff, ond hefyd i siopwyr, busnesau a mentrau masnachol, ffermwyr, adeiladwyr ac eraill allai fod yn creu gwastraff yn yr ardal fabwysiadu y safonau ailgylchu a lleihau gwastraff diweddaraf , a
- Gwneud Tirweddau a Warchodir yn fodelau o reoli dŵr yn gynaladwy. Mae hyn yn cynnwys: rheoli basnau afonydd mewn dull integredig gan ddefnyddio technegau "gwyrdd" i leihau llifogydd (e.e. cael gwared o ddraenio artiffisial mewn haenbantiau) a rheoli llifogydd (e.e. gadael i lifogydd ddigwydd yn naturiol yn hytrach na brwydro i'w hatal);
  Cefnogi technegau arloesol i ddefnyddio llai o ddŵr mewn masnach ac yn y cartref a chynyddu ailgylchu; a cheisio cael ad-daliadau iawn gan drefi i lawr yr afon sy'n defnyddio adnoddau dŵr y mae eu swm a'u hansawdd yn dibynnu ar warchod gwahanfeydd dŵr mewn Ardaloedd a Warchodir.

Gwneud Tirweddau a Warchodir yn fodelau o Dwristiaeth Gynaladwy. er enghraifft:

- Mabwysiadu'r llu syniadau da yn Loving Them to Death EUROPARC.

- Defnyddio trethi a dulliau eraill i ddal rywfaint o'r cyfoeth twristiaid sy'n cael ei greu mewn Ardaloedd a Warchodir a'i ailgylchu mewn buddsoddiadau yn yr amgylchedd lleol,

- Arloesi gyda chynlluniau i gael ymwelwyr (a phobl leol) allan o'u ceir ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, rhedeg trafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n llygru a gorfodi cyfyngiadau cyflymder a chyfyngiadau eraill i leihau'r effaith ar yr amgylchedd, a

- Mynnu'n gyffredinol fod twristiaeth wedi ei seilio ar ddefnyddio asedau amgylcheddol yr ardal mewn modd cynaladwy;

Mai, 2003

JO\NPR\Ymateb ERYRI Adolygiad y Parciau Cenedlaethol